

"ATHRYLITH Fawr, Bardd, Llenor, Hynafiaethydd". Dyna ran o'r arysgrif ar garreg fedd Dr Wiliam Evans ym mynwent Eglwys Blwyf Pentraeth ym Môn. Ar 15 Awst 1947 dyfarnwyd iddo ddoethuriaeth er anrhydedd gan yr Académie et Université Internationales. Ni wni ddim am un Cymro arall a gaffodd yr anrhydedd hwn. Pwy oedd Wil Ifan o Fôn? Beth wnaeth o?

Dengys Cyfrifiad 1881 fod Wiliam Evans pryd hynny yn fachgen chwech oed yn byw gyda'i rieni John Evans (39 oed, gwas fferm a brodor o Bentraeth) a Jessie (38 oed a aned yn Llaneugrad) ym Mhen-y-lôn ar ymyl y Traeth Coch ym mhlwyf Pentraeth. Yr oedd plant eraill ar yr aelwyd yn 1881 - Jane (4 oed) ac Edward (1 oed) ynghyd â dau blentyn hŷn o briodas gyntaf y fam â Thomas Pritchard, llongwr.

Wiliam oedd y plentyn hynaf o wyth a aned i Jessie a'i hail ŵr John Evans. Taid a nain Wiliam o ochr ei dad oedd Wiliam Evans cigydd (bu farw yn 1873) a Jane, o'r Dowyn nid nepell oddi wrth Ben-y-lôn.

Ymddengys fod Wiliam Evans ifanc wedi mynychu Ysgol Genedlaethol Llanbedr-goch hyd nes ei fod yn ddeuddeg oed, pryd yr aeth i weini. Ac yntau'n 16 oed fel wellodd gladdu ei rieni o fewn deuddeg niwrnod i'w gilydd - John Evans ar 20 Mai 1891 yn 51 oed a Jessie ar 1 Mehefin yn 47 oed. Tybed ai haint a'u lladdodd?

Yn fuan wedi hynny penderfynodd Wiliam Evans fynd i Benmaen-mawr i ddysgu crefft saer maen. Ni bu'n hir wrth y grefft honno oherwydd fe'i denwyd i ymuno â'r fyddin. Gwasanaethodd yn India, Melita, Creta, Yr Aifft a Pekin.

Yn Y Cloriantydd 29 Tachwedd 1900 cyhoeddwyd llythyr o'i eiddo a ysgrifennwyd o Hong Kong. Awgryma'r llythyr mai saith mis oedd ganddo i wasanaethu cyn diosglifrai milwr. Tra oedd yn Hong Kong aeth i Stiwdio Yong Seng yn 35 Queen's Road East i dynnu ei lun. Y llun hwnnw sydd gyda hyn o ysgrif.

## DAFYDD WYN WILIAM yn dwyn i gof Lloffwr anarferol a oedd braidd yn rhy wreiddiol

Bentraeth wedi cael ambell gyfrol, onid cyfrolau, o'r llyfrgell honno.

Cyn 1921 cafodd Wiliam Evans denantiaeth Pen-y-bont, tyddyn bach o fewn poeriad i'r fan lle cafodd ei eni ger y Traeth Coch. Heblaw trin y tir, magu anifeiliaid ac arfer y grefft o drin cerrig, bu Wiliam Evans yn gwerthu ac yn trwsio peiriannau gwnio **Singer** a chofir gan lawer amdano ym Marchnad Llangefni yn denu'r gwragedd i brynu un o'r peiriannau hyn. Yr oedd hefyd yn dal ar bob cyfle i ddiwyllio ac addysgu ei hun.

MEDRAI brydyddu yn y mesurau caeth ac yn y mesurau rhydd; gwelais gywydd ganddo i'r 'Gog' a chyfres o englynion yn condemnio diota a meddwdod. Mabwysiadodd yr enw barddol 'Wil Ifan o Fôn' a bu'n Gyflwynfardd Gorsedd Beirdd Eisteddfod Gadeiriol Môn (1922-23; 1930-31) ac yn Wylwr Porth yr Orsedd (1929-30). Gosododd gylch o gerrig ar ran o'i dyddyn gan fynnu bod y cylch hwnnw yn union debyg i'r hyn y dylai cylch Gorsedd Beirdd fod.

Bu yng Nghôr y Cewri (Stonehenge) yng nghwmni John Eilian, ac yn Archifdy Môn ceir siart hynod sy'n dwyn y pennaed 'The Bardic Circle A Primary Attempt At Dissection', gydag enw 'William Evans D. Litt' wrtho a'r dyddiad 15.8.1951.

Deallaf mai ei fab o'r un enw ag ef a osododd feddyliu'r Doethor am Gylch yr Orsedd ar bapur, a hynny yn dwt odiaeth. Cynhaliwyd Arwst Gorsedd Beirdd Môn fwy nag unwaith ym Mhen-y-bont, cartref Wiliam Evans.

Adlewyrchir diddordeb Wiliam Evans mewn hynafiaethau yn y



WIL IFAN O FÔN  
yn filwr yn Hong Kong

ffraith iddo ymaelodi gyda Chymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn yn 1925 a pharhau'n aelod hyd 1931.

Diau iddo gael ei siomi gan y Gymdeithas hon, oherwydd ni chyhoeddwyd un ysgrif o'i eiddo yn ei Thrafodion blynyddol na chwaith adolygiad o'r cyfrolau a ysgrifennodd. Cyhoeddodd dair cyfrol, un ohonynt yn y Gymraeg ac argraffwyd hwy ar wasg W.O. Jones, Llangefni.

- 1 **Bonedd y Cymry neu Lyfr Hynafion Byd** (1916)
- 2 **The Meini Hirion and Sarns of Anglesey** (1927) - cyflwynwyd i goffau Syr Norman Lockyer, Seryddwr ac Archaeolegydd.
- 3 **The Bards of the Isle of Britain** (?1928) - golygydd gan Graham Ellwell, Coleg y Brenin, Caergrawnt.

Casglodd yr awdur lu o danyysgrifwyr i'w gyfrol gyntaf, o blwyf ei febyd a'r plwyfi cylchynol. Dengys y cyfrolau hyn rai o brif

ddiddordebau'r awdur. Gwaetha'r modd cyfeiliornai gryn dipyn wrth esbonio enwau lleoedd, tarddiad iaith, diben y meini hirion a phynciau eraill ac oherwydd hyn fe'i wftfid gan fwyaf y dysgedigion.

Trwy garedigrwydd cyfaill, gwelais lun gopi o gyfrol y bwriadai Wiliam Evans ei chyhoeddi tua 1932, sef 'With the Romans to the West', ymgais resymol i olrhain ffordd Rufeinig ar draws Môn. Dengys y gwaith hwn ei adnabyddiaeth drylwyr o sir ei febyd.

Ergwaethaf ei gyfeiliorni, y mae gweithiau Wiliam Evans yn ddi-ddorol i'w darllen ac y maent yn dangos inni werinwr hynod o aflonydd ac ymchwilgar. Barnodd rhai ysgolheigion o Ffrancwyr fod y gweithiau hyn yn teilyngu doethuriaeth.

Credaf mai un o brif gryfderau Wiliam Evans oedd ei ynni a'i ddychymyg fel colofnydd i'r **Cloriantydd**. Ysgrifennai chwedlau a storïau wrth y llath i'r papur wythnosol poblogaidd hwn am flynyddoedd lawer. Y mae'n gwbl amlwg ei fod yn mwynhau rhoi rhaff i'w ddychymyg.

Rhaid cytuno â'r Parchedig James Jones yn ei gywydd coffa i Wil Ifan o Fôn (ffrwyth cystadleuaeth yn Eisteddfod Môn Gwalchmai (1953) pan soniodd am 'brysur sgrifell' yr awdur o Bentraeth a hynodwyd ei ysgrifeniadau:

*Yma'n hir bydd llun mwynhau Gwledd ei ryfedd ysgrifau.*

Diolch am gymeriadau fel Wil Ifan o Fôn sy'n torri cwys ar draws rhigolau arferol ysgolheictod!

O.N. Yr hyn a'm hysgogodd i Iunio'r ysgrif hon oedd clywed am farw Wiliam Evans o Gorwen, sef mab Wil Ifan o Fôn. Fel ei dad o'i flaen, yr oedd yntau'n wladgarwr ac yn ŵr diwylliedig a thra dyfeisgar. Bu farw 14 Rhagfyr 1987, a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys y Plwyf Pentraeth ar 21 Rhagfyr.

## DIDDORDEBAU FFURETWR BACH

WEDI crwydro moroedd a chyfandiroedd fe ddychwelodd Wiliam Evans i'r fro lle'i ganed ac y'i maged a threulio gweddill ei oes yno. Ymgartrefodd gyda rhai o'i dylwyth ger y Traeth Coch ac ailgydio yn y grefft a ddysgodd yn ei lencyndod, sef trin cerrig.

Ymhen blynyddoedd, daeth merch ifanc o Dalwrn i weini ar y Parchedig Wiliam Pritchard (m1921), awdur a gweinidog amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mhenraeth. Er bod y ferch o Dalwrn flynyddoedd yn iau na Wiliam Evans fe ymserchodd y naill yn y llall, a phriodi ym Mangor, 8 Rhagfyr 1914. Enw'r briodferch oedd Elisabeth Jane (bu hi farw 18 Ebrill 1966).

Aeth y ddeuddyn i fyw i Ferddyn Gwyn, Pentraeth ac yno y ganed eu mab Wiliam (1915-87). Yno hefyd yr oeddynt pan ddaeth cyfrol gyntaf Wiliam Evans o'r wasg. Fe ddywedir bod y Parchedig Wiliam Pritchard wedi caniatáu i Wiliam Evans ddefnyddio'i lyfrgell a phan fu farw'r Gweinidog y mae'n debygol fod y saer maen o

Y SIOC fwyaf a ddaeth i'm rhan yn 1987 oedd dod o hyd i begiau. Roedd hynny ynddo'i hunan yn ddigon i 'sbarduno dyn i sgwennu. Tri deg a thri peg anfarwol onide. Gêm boced *Solitaire*. A thrwy gydol 1987 fe'm gorfodwyd i lamu'n llyffantylid o un cwr i'r llall, yn ôl a blaen ar hyd bwrdd o begiau, gyda'r nôd o orffen yn fuddugoliaethus hefo un peg yn y canol.

Ond fe wyddwn ar ôl yr holl 'stumio a bustachu nad oeddwn wedi concro, heb sôn am leddfu fy nerfau, a dyna pryd y dechreuodd y poen meddwl mewn gwirionedd. Pwy a phryd y dyfeisiwyd y gêm *Solitaire*.

Holais amryw byd o siopwyr. Mentrais Iunio llythyr ac anfon sawl copi ohono at wybodusion hirben, ond i ddim diben. Ni chefais ateb i'm cwestiwn.

SÓN AM sgwennu. Yn 1987 anfonais llythyrau at bobl a sefydliadau er mwyn dod o hyd i ryw

wybodaeth neu'i gilydd. Yn gwrteisiol cynhwysais amlen a stamp a'm cyfeiriad, a hyn i gyd, er mwyn cael ateb i'm cais. Nid felly y bu.

Tybed a oes angen llunio rhestr ddu? Ecsploetio gweilch sy'n cymryd mantais o stampiau pobl eraill? Mae pobl o'r fath yn anghurtais ddwedwn i, ac yn haerllug o ddigwylydd, o gofio bod stamp cyntaf erbyn hyn yn 18 ceiniog.

Meddyliwch faint o stampiau a wastreffir mewn blwyddyn? A dweud y gwir, a oes diben bod mor gwrtais â chynnwys amlen hunangyfeiriadig a stamp efo pob cais a anfonir!

DAETH problem astrus i boeni cyfaill da yn 1987. Ei brif ddileit yw storio a stocio posteri o bob math, yn enwedig posteri sy'n gwneud defnydd teilwng o'r Gymraeg ac yn adlewyrchu'r bywyd Cymreig drwodd a thro. Ond mi oedd y wraig

yn gweld y bliws. Onid oedd y gŵr wedi casglu cannoedd ar gannoedd o bosteri ac yn creu llyfrgell-bosteri o'r cypyrddau dillad yn lloffydd y tŷ. A oes rhai o'n darllenwyr yn ymddiddori mewn casglu posteri o bob math? Peidiwch â bod yn swil. Danfonwch air atom.

"Y BUSNES casglu 'ma,' ebe ffrind wrtha'i, a doedd o heb fod â thafod yn ei foch ychwaith, "mae o'n ddamniol ar brydiau." "Be' ti'n feddwl?" gofynnais innau'n reit hurt.

Yr hyn oedd ganddo oedd, a ddylid casglu cerrig o gofio fod adnoddau naturiol yn prinbau. Yr hyn oedd dân ar ei groen oedd gweld pobl yn ymweld â'r hen wlad ac yn cludo picell efo nhw ac yn ceisio chwalo craig gyfan er mwyn cael yn eu mediant un ffosil bychan. Rigor mortis - hwn'na ydy o. Lladrata? Difwyno? Beth feddyliwch chi?